

CODI EIN LLEISIAU

TROSOLWG I'R ATHRO

Cynnwys

- Cyflwyniad
- Nodau *Codi Ein Lleisiau*
- Strwythur *Codi Ein Lleisiau*
- Gwahaniaethu
- Amlinelliad manwl o'r sesiynau
- Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Cydnabyddiaethau

Cyflwyniad

Mae *Codi Ein Lleisiau* yn gyfres o wersi ysbrydoledig a fydd yn eich galluogi i gyflwyno prosiect trawsgwricwlaidd ynghylch rôl cerddoriaeth mewn newid cymdeithasol. Gan ganolbwyntio ar faterion anghydraddoldeb, a chyfeirio'n benodol at y Mudiad Hawliau Sifil yn Unol Daleithiau America a hawliau tir cymunedau brodorol yn Chile a Bolifia, bydd y sesiynau'n galluogi'r dysgwyr i archwilio agweddau ar hawliau dynol a materion cydraddoldeb a darganfod sut y mae cerddoriaeth wedi cael ei defnyddio i roi llais i bobl sy'n protestio.

Bydd y sesiynau'n gyfle i chi ddod â cherddoriaeth i mewn i'r ystafell ddosbarth trwy gyfleoedd canu a pherfformio syml, a chefnogi datblygu llythrennedd hefyd trwy lunio geiriau ar gyfer cân. Bydd y dysgwyr yn datblygu ystod o sgiliau, megis hyder, gwaith tîm, disgyblaeth a chreadigrwydd oddi mewn i fframwaith addysg ynghylch hawliau a dinasyddiaeth fyd-eang

Bydd yr adnoddau hyn yn cyd-fynd â sesiynau Oxfam, *Codi Ei Llais*, y mae modd eu lawrlwytho o bit.ly/raisinghervoice. Mae deunyddiau *Codi Ei Llais* yn edrych ar rôl cerddoriaeth o ran hyrwyddo hawliau merched a menywod; hyrwyddo ymwybyddiaeth a gwerthfawrogi offerynnau ac arddulliau cerddorol Gorllewin Affrica, a hefyd amrywiaeth yng ngherddoriaeth Gorllewin Affrica. Gellir defnyddio pecyn *Codi Ei Llais* a phecyn *Codi Ein Lleisiau* gyda'i gilydd neu'n annibynnol ar ei gilydd.

Nodau *Codi Ein Lleisiau*

- Darparu gwybodaeth o fywyd go iawn i ysgogi diddordeb disgyblion mewn cerddoriaeth a hawliau dynol.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion anghydraddoldeb, gan ganolbwyntio'n benodol ar hiliaeth a'r Mudiad Hawliau Sifil yn Unol Daleithiau America a hawliau cymunedau brodorol yng nghyd-destun America Ladin.

- Ystyried enghreifftiau o sut y mae cerddoriaeth a chaneuon wedi cael eu defnyddio i brotestio yn erbyn anghydraddoldeb.
- Galluogi disgyblion i ddatblygu hyder, sgiliau gwaith tîm, disgyblaeth a chreadigrwydd trwy gyfansoddi a pherfformio eu gwaith.
- Helpu athrawon cynradd i gyflawni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (ar gyfer Lloegr, defnyddiwyd cwricwlwm newydd 2014).

Strwythur Codi Ein Lleisiau

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys pedwar o gynlluniau gwersi manwl, fel a ganlyn:

- Un sioe sleidiau
- Pedair sesiwn:
 - Sesiwn 1: Hawliau, Caneuon Rhyddid a'r Mudiad Hawliau Sifil
 - Sesiwn 2: Caneuon protest ac anghydraddoldeb hiliol
 - Sesiwn 3: Caneuon protest ac anghydraddoldeb yn America Ladin
 - Sesiwn 4: Ysgrifennu cân brotest

Argymhellir defnyddio Sesiynau 1, 2 a 4 ar draws yr ystod oedran 7-11. Mae Sesiwn 3 yn rhoi cyfle i ddysgwyr 9-11 oed ystyried anghydraddoldebau ym Molifia y dyddiau hyn.

Mae pob cynllun gwers yn cynnwys nodiadau cefndir i'r athro a thafenni adnoddau y gellir eu llungopïo i'r disgyblion, lle bydd hynny'n briodol, a dolenni i glipliau sain a fideo ar-lein. Mae cyflwyniad PowerPoint y gellir ei lawrlwytho hefyd.

Os bydd yr amser addysgu yn gyfyngedig, mae modd defnyddio'r adnodd hwn o hyd trwy ddilyn fersiwn 'fer' a fydd yn cymryd awr yn unig. Gallai hon gynnwys fersiynau byrrach o'r gweithgareddau canlynol (neu gallech ddewis a dethol y rhai a fyddai'n cyflawni eich nodau chi yn eich cyd-destun chi).

- Gweithgaredd 1.1 *Archwilio Hawliau*
- Gweithgaredd 1.2 *Caneuon Rhyddid a'r Mudiad Hawliau Sifil*
- Gweithgaredd 2.1 *Archwilio caneuon protest am anghydraddoldeb hiliol*

Gwahaniaethu

Mae llawer o'r gweithgareddau'n addas ar gyfer gwahaniaethu trwy ddeilliant. Fodd bynnag, mae pob un o'r cynlluniau gwersi manwl yn amlygu cyfleoedd ychwanegol i wahaniaethu gweithgareddau unigol lle bydd hynny'n briodol.

Codi Ein Lleisiau (Rhan 2) – amlinelliad manwl o'r sesiynau

Teitl y sesiwn	Amcanion Dysgu	Deilliannau Dysgu	Cwestiynau Allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Sesiwn 1: Hawliau, Caneuon Rhyddid a'r Mudiad Hawliau Sifil	<ul style="list-style-type: none"> Adeiladu gwybodaeth am hawliau a chydraddoldeb. Datblygu hyder o ran canu a chof tonyddol Myfyrio ar sut y gall caneuon helpu pobl i reoli a mynegi eu teimladau. Dechrau deall rôl cerddoriaeth yn y Mudiad Hawliau Sifil. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y dysgwyr yn canu un o ganeuon traddodiadol cerddoriaeth Gospel Americanaidd er mwyn dod i ddeall gwreiddiau math o gerddoriaeth brotest. 	<ul style="list-style-type: none"> Beth yw'r gwahaniaeth rhwng "anghenion" a "dymuniadau"? Beth yw hawliau? Beth oedd y Mudiad Hawliau Sifil? Beth oedd rôl caneuon yn y Mudiad Hawliau Sifil? Sut y gall caneuon helpu pobl i fynegi eu teimladau? 	<p>Tasg Gychwynnol: Cydraddoldeb</p> <p>Gweithgaredd 1.1: Archwilio Hawliau</p> <p>Gweithgaredd 1.2: Caneuon Rhyddid a'r Mudiad Hawliau Sifil</p>	<ul style="list-style-type: none"> Sioe Sleidiau: <i>Codi Ein Lleisiau</i>, sleidiau 1–12 Taflen Gweithgaredd: <i>This Little Light of Mine (geiriau)</i> Trac cefndir ar gyfer "This Little Light of Mine" (2 funud 15 eiliad) Nodiadau cefndir i'r athro
Sesiwn 2: Caneuon protest ac anghydraddoldeb hiliol	<ul style="list-style-type: none"> Myfyrio ar ganeuon a ddefnyddiwyd i brotestio yn erbyn anghydraddoldeb hiliol. Defnyddio sgiliau gwranddo i archwilio gwahanol <i>genres</i> o gerddoriaeth (jazz, gwerin a hip-hop). Deall y gall geiriau fod â phwrpas difrifol. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y dysgwyr yn nodi negeseuon pwysig mewn caneuon protest ac yn myfyrio arnynt. 	<ul style="list-style-type: none"> Sut y mae cantorion yn defnyddio'u caneuon i gyfleu eu neges? Pa eiriau yw'r rhai amlycaf i mi? 	<p>Tasg Gychwynnol: Ras fwrdd</p> <p>Gweithgaredd 2.1: Archwilio caneuon protest ynghylch anghydraddoldeb hiliol</p>	<ul style="list-style-type: none"> Sioe Sleidiau: <i>Codi Ein Lleisiau</i> (sleidiau 11–14) Nodiadau cefndir i'r athro Taflen Gweithgaredd: <i>Ymatebion i Ganeuon Rhyddid</i>
Sesiwn 3: Caneuon protest ac anghydraddoldeb yn America Ladin	<ul style="list-style-type: none"> Dod i ddeall mathau penodol o anghydraddoldeb hiliol. Archwilio math penodol o gân brotest. Syntheseiddio gwybodaeth o erthygl bapur newydd a'i chyfleu i eraill mewn modd creadigol. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y dysgwyr yn datblygu gwaith chwarae rôl yn seiliedig ar wybodaeth o weithgaredd darllen papur newydd. Bydd y dysgwyr yn defnyddio eu gwybodaeth am anghydraddoldeb i gynllunio cân brotest 	<ul style="list-style-type: none"> Pam y mae pobl yn protestio? Cân am bwy oedd un Victor Jara? Beth yw ystyr "brodorol"? Pam y mae hawliau tir yn bwysig? Sut y gallaf i ddefnyddio cân i ddweud wrth bobl eraill am anghydraddoldeb? 	<p>Tasg Gychwynnol: Pam y mae pobl yn protestio?</p> <p>Gweithgaredd 3.1: Anghydraddoldeb o ran hawliau tir a phrotest yn America Ladin</p> <p>Gweithgaredd 3.2: Newyddion o Bolifia</p>	<ul style="list-style-type: none"> Sioe Sleidiau: <i>Codi Ein Lleisiau</i> (sleidiau 15–21) Taflen gweithgaredd: <i>Newyddion Bolifia</i> Nodiadau cefndir i'r athro
Sesiwn 4: Ysgrifennu cân brotest	<ul style="list-style-type: none"> Crynhoi'r hyn a ddysgwyd am anghydraddoldeb hyd yn hyn. Defnyddio gwybodaeth, sgiliau cerddorol ac ysgrifennu creadigol i ysgrifennu eu geiriau eu hunain. Datblygu sgiliau gwaith tîm i gynllunio a rhoi perfformiad. Defnyddio sgiliau meddwl yn feirniadol i asesu materion. 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu geiriau ar gyfer cân brotest ynghylch anghydraddoldeb. Bydd y dysgwyr yn perfformio eu cân eu hunain. Bydd y dysgwyr yn meddwl sut i berfformio'r gân o flaen pobl eraill. 	<ul style="list-style-type: none"> Beth yr ydym ni wedi'i ddysgu am anghydraddoldeb hyd yn hyn? Sut y gallaf ddefnyddio cân i ddweud wrth bobl eraill am hyn? Beth yw'r geiriau gorau i'w defnyddio i gyd-fynd â'r gerddoriaeth ac i fynegi'r hyn yr wyf am ei ddweud? 	<p>Tasg Gychwynnol: Cwis crynhoi</p> <p>Gweithgaredd 4.1: Ysgrifennu cân brotest</p> <p>Gweithgaredd 4.2: Perfformio'r gân</p>	<ul style="list-style-type: none"> Traciau cefndir ar gyfer <i>This Little Light of Mine</i> ac <i>I Wish I Knew How it Feels to be Free</i>.



Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae *Codi Ein Lleisiau* yn adnodd dinasyddiaeth fyd-eang. Mae Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn fethodoleg sy'n anelu at helpu pobl ifanc i ddatblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar. Mae Oxfam yn awgrymu dull dysgu-meddwl-gweithredu, er mwyn rhoi cyfle i'r bobl ifanc ddysgu am faterion, meddwl yn feirniadol am ddulliau i'w datrys, a gweithredu fel dinasyddion byd-eang cyfrifol. Gallai'r camau gweithredu gynnwys darganfod rhagor o wybodaeth neu feddwl yn ddyfnach am fater. Gallent hefyd olygu sicrhau bod eraill yn fwy ymwybodol o fater, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian neu ymgyrchu penodol. Am ragor o wybodaeth, gweler: www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship

Dyma elfennau allweddol dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol:

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwerthoedd ac agweddau
<ul style="list-style-type: none"> • Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Hunaniaeth ac amrywiaeth • Globaleiddio a rhyngddibyniaeth • Datblygu cynaliadwy • Heddwch a gwrthdaro • Hawliau a chyfrifoldebau • Pŵer a llywodraethu 	<ul style="list-style-type: none"> • Meddwl yn feirniadol ac yn greadigol • Empathi • Hunanymwybyddiaeth a myfyrdod • Cyfathrebu • Cydweithredu a datrys gwrthdaro • Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd • Y gallu i gymryd camau priodol yn seiliedig ar wybodaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch • Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Parch at bobl a hawliau dynol • Rhoi gwerth ar amrywiaeth • Pryder am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy • Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant • Y gred y gall pobl sicrhau newid

Cydnabyddiaethau

Diolch yn arbennig i Rachel Wadham am ei chyfraniad at ysgrifennu'r adnodd hwn ac i Isabel Tucker am adolygu a golygu'r cynnwys.

Ni fyddai'r cyhoeddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth a chyfraniadau gan nifer o staff Oxfam.

I gael rhagor o wybodaeth am Addysg Oxfam, gan gynnwys amrywiaeth eang o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gweler: www.oxfam.org.uk/education

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

